tafod elái

www.tafelai.com

Medi 2001 **Pris 40c** **Rhif 160**

LLWYDDIANT YR EISTEDDFOD

Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Bu Dawnswyr Nantgarw yn llwyddiannus yn y dawnsio stepio a'r prif Gystadleuaeth Dawnsio gwerin. Daeth Parti'r Efail yn drydydd yn y parti cerdd dant.

Llongyfarchiadau hefyd i Basil Davies, Tonteg, ar dderbyn Tlws Coffa Elvet a Mair Elvet Thomas i gydnabod gwasanaeth arbennig athro Cymraeg fel ail iaith i oedolion.

Cliff Jones ac Eirlys Britton hyfforddwyr Dawnswyr Nantgarw gyda Tlws Coffa Lois Blake

Cyfle Newydd i Fwynhau ein Llên

Trefnwyd Cylch Cadwgan i ni werthfawrogi'r gorau o fyd llenyddiaeth Gymraeg. Nosweithiau ysgafn a difyr a drefnwyd ac mae croeso i bawb ddod i Neuadd Pentyrch ar 5 Hydref i noson yng nghwmni beirdd y Taeogion.

Ysgol Feithrin Gwaelod y Garth

Pob lwc i Ann Williams a Judith Gough o Ffynnon Taf sy'n gadael y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi yng Ngwaelod-y-Garth ar ôl 12 mlynedd. Diolch am eu gwaith rhagorol.

"Mae'n amser symud ymlaen a gwneud rhywbeth gwahanol," meddai Ann. "Diolch i'r holl rieni ac aelodau'r pwyllgor am drefnu digwyddiad hyfryd ac am eu holl anrhegion a dymuniadau da."

Yvonne Stephenson yw'r arweinydd newydd a Lynda Civil a Carol Morgan yw'r cynorthwywyr. "Gobeithio y byddan nhw'n cael cymaint o hwyl ag y cawsom ni dros y blynyddoedd," meddai Ann "a gobeithio y byddan nhw'n mwynhau'r her gymaint â ni."

Mae'r Cylch Meithrin yn ail-agor ar Fedi 4 ac am fwy o fanylion, ffoniwch 20 813980 o ddiwedd Awst ymlaen.

Rali Dydd Glyndŵr

Codi llais cymunedau Cymru

O flaen y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd 2yp Sadwrn 15 Medi 2001

Codi Pris

Gyda'r rhifyn hwn mae pris Tafod Elái wedi codi i 40 ceiniog y rhifyn. Bu'r pris yn 25c ers 1990 ond oherwydd costau cynyddol bu rhaid ail-ystyried y pris.

Gobeithio eich bod yn parhau i gytuno fod y papur yn werth bob un o'r 40 ceiniog ac y byddwch yn tanysgrifio £4 am y flwyddyn (£7 drwy'r post).

Tafod Elái
£4 am y flwyddyn

tafodelái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
029 20811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Hydref 2001
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
20 Medi 2001

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

e-bost
pentyrch@tesco.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
Www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

ARGYFWNG

Efallai nad ydy sefyllfa'r iaith Gymraeg yn edrych yn bryderus wrth weld y twf yn yr ardal hon ond mae'n sicr fod y tyfiant hwnnw wedi ei seilio ar gannoedd o athrawon a gweithwyr eraill a ddaeth o gefn gwlad i fyw yma.

Felly mae'n bwysig ein bod ni hefyd yn cefnogi mudiad newydd Cymuned sydd am sicrhau fod yr iaith yn parhau yn rhan bwysig o'n bywyd. Hefyd mae'n bwysig fod pawb yn edrych ar sut y gallwn ddefnyddio'r Gymraeg fwy fwy yn yr ardal hon – drwy lythyru a ffonio'r Cyngor Sir a chyrff eraill a mwynhau a chymdeithasu drwy'r Gymraeg – mae digon yn digwydd!

Cymraeg i Oedolion

Cynhadledd i rannu arfer dda
Dydd Mawrth, 18 Medi
Gwesty Treftadaeth y Rhondda

Cofrestru: 01443 842008

Merched y Wawr
Cangen y Garth
Noson Agoriadol yng nghwmni Rhianydd Richards,
8pm Nos Fercher Medi 19
Neuadd y Pentref, Pentyrch
Manylion: 029 20891426

Cylch Cadwgan

Y Taeogion yn darllen barddoniaeth ysgafn a dwys.
Nos Wener, Hydref 5 2001
yn Neuadd y Pentref, Pentyrch

Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Llyfr y Brifddinas

Mae Martin Huws, ein gohebydd yn Ffynnon Taf, wedi cyhoeddi llyfr yn sôn am hanes a golygfeydd Caerdydd.

Ers cyfnod y Rhufeiniaid mae'r safle ar aber y Taf a'r Elái wedi bod yn bwysig i reoli bywyd yr ardal ac mae'r llyfr yn olrhain hanes adeiladu'r Castell a'r adeiladau eraill sydd wedi trawsnewid y dref i fod yn un o brif-ddinasoedd mwyaf bywiog Ewrop.

Mae'r llyfr dwyieithog yn llawn lluniau diddorol ac yn gofnod arbennig o ddatblygiad ein prif-ddinas. ***Caerdydd.*** Martin Huws. Gwasg Gomer £1.95.

Clwb y Dwrlyn

Noson Agoriadol
yng nghwmni
Iestyn Morris
8pm Nos Wener
14 Medi
Yn Ysgol Gynradd Creigiau

Côr Godre'r Garth

angen
Cyfeilydd/es

Mae Côr Godre'r Garth yn gwahodd cyfeilyddion piano i gynorthwyo un o gorau cymysg mwyaf Cymru. Mae'r côr yn ymarfer ar nos Sul yn Efail Isaf ac yn cynnal cyngherddau lleol a thramor.

Os oes diddordeb gennych ffoniwch yr arweinydd,
Wil Morus Jones
01443 404001.

www.cwlwm.com

Er mwyn dod â gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal i chi sefydlwyd safle we newydd **www.cwlwm.com**.

Os hoffech gynnwys unrhyw wybodaeth ar y safle cysylltwch â **gwe@cwlwm.com** neu 029 20890040

Cylch Cadwgan

Cyfres o nosweithiau difyr gan gymdeithas sydd am ddod â phobl o bob ran o gylch y Garth at eu gilydd.

Nos Wener, Hydref 5 2001 yn Neuadd y Pentref, Pentyrch

Y Taeogion yn darllen barddoniaeth ysgafn a dwys.

Nos Wener, Tachwedd 9 2001 yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

John Ogwen a Maureen Rhys - "Cnoc, cnoc! Pwy sy' 'na?"

Nos Wener, Ionawr 25 2002 yn Festri Tabernacl, Efail Isaf

Angharad Tomos yn trafod ei gwaith ei hun.

Nos Wener, Mawrth 15 2002 yn Ysgol Creigiau

Sioned Davies yn darlithio ar y testun "Perfformio o'r Pulpud".

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

Penblwydd
Llongyfarchiadau i Mrs Carrie Fisher Fflatiau Dunraven a ddathlodd ei phenblwydd yn 101 oed ddiwedd mis Gorffennaf. Gobeithio y caiff sawl penblwydd eto. Llongyfarchiadau wir!

Staff Newydd
Penodwyd dau aelod newydd i staff y Ganolfan Gymunedol yn ddiweddar. Bydd Abbey Durrans yn gofalu am ieuenctid yn y Gymdeithas tra bydd Greg Morris yn barod i roi cyngor neu wybodaeth ar destunau megis budd-daliadau, sut i chwilio am waith a sut i fynd ati i gael y cymwysterau priodol i gael swydd.

Dymuniadau Gorau
Dymuniadau gorau i'r plant sy'n trosglwyddo i Ysgol Gyfun Llanhari neu Ysgol y Cymer, o'r Ysgol Gynradd ac hefyd i'r rhai sydd newydd adael yr ysgol i gael gwaith neu i barhau a'u haddysg mewn man arall.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Graddedigion newydd!
Llongyfarchiadau fil i Cerian Roberts, Parc y Felin a Siân Edwards, Parc y Fro ar ennill graddau anrhydeddus iawn ychydig yn ôl. Graddiodd Cerian o Brifysgol Abertawe a Siân o Goleg y Drindod, Caerfyrddin. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn eu priod feysydd maes o law.

Colli tipyn o gymeriad
Cydymdeimlwn â Robin ac Olwen Griffiths, Parc y Coed. Bu farw Mrs Dilys Jones, mam Olwen yn ystod yr haf a hithau wedi mwynhau bywyd hir a chyfoethog. Gwnaeth ei chartref yma gyda Robin ac Olwen yn y blynyddoedd diwethaf yma a derbyn pob gofal a thynerwch ganddynt. Brodor o Ruddlan ydoedd Mrs Jones, a hithau'n gyn-athrawes.

Mewn cwmni brenhinol!
Nid pawb sy wedi troedio lawntiau palas Buckingham a chrwydro ar hyd ei goridorau, ond dyna a wnaeth dau deulu o'r Creigiau yn ddiweddar. Yno i dderbyn yr anrhydedd o Wobr Aur Dug Caeredin ydoedd Siwan Thomas a Fiona MacDonald, a'u teuluoedd yn eu sgil. Cafodd y ddwy eu cyflwyno â'u gwobrau gan y cynllunydd David Emmanuel. Tybed a fyddant mewn cysylltiad â'r gŵr hwnnw i gynllunio 'rig-owt' go arbennig ar eu cyfer yn y dyfodol?!

Hen Gonan
Llongyfarchiadau i Ken Sedgebeer, Parc y Bryn ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Llythyr Cwyno i Ddysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Llythyr difyr a doniol iawn, ar waetha'i gynnwys!

Pam Cadwgan?

Yn y 12^{eg} a 13^{eg} ganrif bu ymladd rhwng y Normaniaid a'r brodorion lleol am yr ardal rhwng y Taf a'r Elái am ymron i 150 mlynedd. Ac er i Richard de Clare lwyddo yn 1245 i ddal ei afael ar gastell Llantrisant fe gododd Cadwgan Fawr neu Cadwgan Lly hog y Fwyell i arwain y werin bobl.

Roedd Cadwgan yn un o deulu Penllwyn Cynfyn a ddaeth yn wreiddiol o Sir Frycheiniog. Cawsant yr hawl i'r tir a elwir Penllwyn Cynfyn rhwng Creigiau a Phentyrch gan Arglwyddi Cymreig Meisgyn.

Yn ôl hanes y cyfnod fe frwydrodd Cadwgan Fawr i amddiffyn hen draddodiadau a hawliau'r werin bobl. Ei fwyell finiog oedd ei hoff arf a fu'n fodd i sicrhau fod yr iaith Gymraeg a'i thraddodiadau yn parhau yn fyw yn yr ardal hon.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

Gerwyn Wiliams, y Prifathro, Morfydd Huws a Hywel Lewis, y cyn-brifathro.

NOSON FYTHGOFIADWY I MORFYDD

Cafodd Morfydd Huws, athrawes yn Ysgol Gwaelod-y-Garth, syrpreis ar ddiwedd y tymor.

Roedd hi a' i gwr, Gareth, newydd gael diod yn Nhafarn y Tŷ Nant, Pentrepoeth, a Morfydd yn edrych ymlaen at gyri mewn tŷ bwyta Indiaidd. Wn i beth aeth drwy ei meddwl pan drodd Gareth y car i gyfeiriad Gwaelod-y-Garth a chyrraedd Neuadd y Pentre. Yno roedd pryd bwyd bys a bawd yn barod a pherthnasau, ffrindiau, hen staff a newydd, cynrychiolwyr cymdeithasau a llywodraethwyr yn bresennol.

Wedyn daeth y syrpreis nesa, llais awdurdodol, cyfarwydd yn dweud: "Morfydd Huws, this is your life." Cyfeiriwyd at y ffaith fod Morfydd wedi bod yn yr ysgol ers 1985 ac wedi chwarae rhan allweddol, nid yn unig yn y dosbarth ond mewn gweithgareddau fel Eisteddfodau'r Urdd.

Cyflwynodd y staff a'r llywodraethwyr anrheg ymddeol, llun gan yr arlunydd lleol, Vernon Hill.

Diolch am fod yn frwdfrydig, yn gydwybodol, ac yn broffesiynol. Ymddeoliad hir a hapus, Morfydd.

YMCHWIL I FARWOLAETH SAUDI ARABIA

Wrth inni fynd i'r wasg, roedd Heddlu Saudi Arabia'n ymchwilio i farwolaeth Cymro mewn pwll nofio. Daethpwyd o hyd i gorff Robert Cartlidge, 26 oed, o Nantgarw, mewn clwb preifat ym mhrifddinas y wlad, Riyadh. Roedd y peiriannydd awyren yn gweithio i gwmni cynnal a chadw o'r enw Al-Salaam.

"Mae ei rieni mewn sioc," meddai Albert Cartlidge, wncwl Robert. "Roedd yn dwlu ar ei waith ac wrth ei fodd yn y wlad."

HAUL AR Y FODRWY

Llongyfarchiadau i Alison Probert, Athrawes Dosbarth 1C Ysgol Gwaelod-y-Garth, briododd Martin Davies ar Awst 18 yng Nghapel Siloa, Aberdar.

Mae'r ddau'n byw yn Fferm Bryncul, Penderyn, ger Hirwaun.

UNO DAU DEULU

Llongyfarchiadau i Bethan Elis Owen a'r Parchedig Gareth Rowlands ar eu dyweddiad.

MARW DORIS LOCK

Yn dawel yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14, bu farw Doris Lock, o Waelod-y-Garth, gwraig y diweddar Howard, mam Colin, Marilyn, Brian ac Alan, a mam-yng-nghyfraith Jennifer, Ann a Bill.

Roedd y gwasanaeth yng nghapel Tŷ Hebrwng D J Evans Forse, Yr Eglwys Newydd, a'r traddodiant yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd. Cydymdeimlwn a'r teulu.

O DDEINOSORIAID I'R GOFOD

Mae gweithwyr General Electric Aircraft Engine Services, Nantgarw, wedi helpu trefnu arddangosfa yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Prentisiaid a graddedigion GEAES sy wedi cynllunio rhannau o arddangosfa Flight sy'n olrhain hanes hedfan o'r cyfnod cynhanesyddol i'r dechnoleg ddiweddara yng nghyfnod y gofod.

"Mae'r gweithwyr wedi cyfrannu pum eitem arddangos," meddai Jeff Morgan o GEAES. "Roedd yn brofiad gwerthfawr gan eu bod yn gorfod gweithio fel tîm. Nid yn unig maen nhw wedi cynllunio eitemau. Maen nhw wedi wedi chwilio am ddeunydd yn lleol ac adeiladu'r eitemau. Ry'n i gyd yn falch o'u cyfraniad."

MARW GWLADYS GREEN

Yn dawel yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, ddydd Sul, Gorffennaf 15, bu farw Gwladys Mary Green, o Waelod-y-Garth, gwraig y diweddar Ernie, mam David, Gerald, Pat, a mam-yng-nghyfraith Veronica.

Roedd y gwasanaeth yng nghapel Tŷ Hebrwng D Caesar Jones, Rhiwbeina, Caerdydd, a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd. Cydymdeimlwn a'r teulu.

CANATHON YN CODI £1,271

Wrth inni fynd i'r wasg, roedd Canathon Ysgol Gwaelod-y-Garth wedi codi £1,271. "Mae hwn yn gyfanswm syfrdanol hyd yn hyn," meddai Carrie Anderson, Trysorydd y Gymdeithas Rhieni. "Chwarae teg, mae'r plant wedi bod yn brysur yn casglu arian nawdd a chanu yn yr awyr agored."

Deallwn y bydd y prifathro ym Medi yn awgrymu ble bydd yr arian yn cael ei wario.

Ysgol Heol y Celyn

I ddechrau y mis yma teimlaf fod rhaid diolch a llongyfarch yr holl blant a gymerodd ran ym Mharti Ponty. Roedd grŵp yn dynwared y grŵp pop `Mega' yn ogystal â phlant o'r Adran Saesneg yn perfformio `Bananas'. Roedd dros 50 o blant Heol y Celyn hefyd yng nghôr Parti Ponty. Os am wrando arnynt, mae CD ar werth o hyd am £3.99 gan Afryl Davies yn Ysgol Heol y Celyn.

Mae nifer o blant yr ysgol wedi bod ar dripiau y mis yma hefyd. Fe aeth Blwyddyn 6 ar y gamlas yn Aberhonddu ac yna i Gastell Cyfarthfa yn y prynhawn, ac fe aeth dosbarthiadau 2C a 3C i Barc Treftadaeth y Rhondda Yn amlwg o'u hanesion bu i'r holl blant fwynhau yn arw. Hoffai plant dosbarthiadau 2C a 3C ddiolch yn fawr i Peter y cyn-lowr yn y Parc Treftadaeth am fynd â hwy o amgylch y pwll.

Rydym wedi cael ein diddori yn fawr yn yr ysgol y mis yma hefyd gyda nifer o ymwelwyr yn perfformio gwahanol eitemau. Cafodd Blynyddoedd 5 a 6 y cyfle i gymeryd rhan mewn gweithdy ar yr opera `Carmen' gyda Cwmni Opera Cymru. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i'r plant gael perfformio gyda tri o'r cwmni sef Kate Woolveridge, Helen Greenway a'r tenor Ashley Cathing.

Cawsom ein diddanu hefyd gan y `Welsh Brass Trio' a berfformiodd yn Cymraeg a Saesneg. Cawsom ein difyrru gyda'u talentau i chwarae offerynnau pres yn ogystal â'u hiwmor. Y cwmni arall a ddaeth i'r ysgol oedd cwmni drama B.T. FutureTalk . Perfformiodd y cwmni ddrama fer yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu a dangos parch tuag at eraill.

Llongyfarchiadau mawr eto i Samantha Harris ar gael ei gwregys coch yn Karate dydd Sul yr wythfed o Orffennaf. Bu i Brian Davies hefyd gystadlu yng Nghaerfyrddin gyda'r `South Wales Schoolboy Scramble Club' am y tro cyntaf ers misoedd oherwydd y clwyf Traed a Genau. Dechreuodd y gystadleuaeth yn dda gydag ef ar y blaen, ond yn anffodus cafodd ddamwain a methodd orffen. Anafodd ei gefn ond diolch byth nid oedd yn anaf rhy beryglus.

Chwaraeodd tîm pêl-droed yr ysgol yn erbyn Ysgol Hawthorn ond yn anffodus colli a wnaethant o 3 gol i 2.

Llongyfarchiadau mawr i Laura Rees Blwyddyn 4 a ddaeth yn 3ydd yn y rownd derfynol yn y Gala Nofio, yn ogystal â Amy Gratton a Rhys Downes Blwyddyn 6 a ddaeth yn 4ydd yn y rownd derfynol.

Wel i orffen y mis yma hoffwn ffarwelio a dymuno pob hwyl i blant Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ddiwedd y tymor i fynd Ysgol Rhydfelen, Cardinal Newman ac Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich amser yn Ysgol Heol y Celyn a phob lwc i chi yn y dyfodol.

Ffynnon Taf, Nantgarw a Gwaelod y Garth

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Medi 2: Y Gweinidog (Cymun); Medi 9: Y Gweinidog; Medi 16: Y Gweinidog; Medi 23: Y Parchedig Aled Edwards; Medi 30: Y Gweinidog.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelody-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Medi 3: Hyfforddiant-mewn-swydd i'r staff; Medi 4: Dechrau tymor i'r plant.

Eisiau canu'n Gymraeg ?
Yn newydd i'r ardal ... ?
... neu yma ers blynyddoedd ?

Ymunwch â ni!

CÔR GODRE'R GARTH

Lot o hwyl — Darnau amrywiol
Côr SATB Mawr
Teithiau tramor — Cyngherddau lleol
Aelodau o bob oed
Digon o gymdeithasu — Dim gwrandawiadau

Am ganu da a llawer o hwyl
gyda chôr ag iddo hanes
chwarter canrif o eisteddfota,
cyngherdda a diota, ymunwch â ni.

Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Pob nos Sul am 7:30 pm
(heblaw am wyllau ysgol)

CROESO I BAWB

Manylion pellach: eteri.darkins@btinternet.com; (01443) 95 33 42

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.net

CYFLE I BAWB

Mae cyfle i bawb ymuno yng ngwaith y Fenter Iaith yn Rhondda Cynon Taf a'r cyffiniau a all fod yn cynnwys Merthyr Tudful ai peidio – dywedwch chi – trwy fynychu cyfarfod blynyddol y fenter a gynhelir ar 18 Hydref 2001 ym Mhontypridd. Mae pwyllgor gwaith hollol agored gennym ac y mae croeso i unrhyw un sydd eisiau datblygu'r Fenter ymuno â'r pwyllgor am flwyddyn neu ddwy trwy gynnig eu hunain yn y cyfarfod blynyddol. Os ydych yn dod a 2 neu 3 o gefnogwyr dych chi'n siwr o gael digon o bleidleisiau! Cynhelir un cyfarfod o Bwyllgor Gwaith y Fenter cyn y cyfarfod blynyddol ar 17/9/01 os ydych am wneud unrhyw awgrymiadau.

CYFARFODYDD DYSGWYR/ GOFAL PLANT / IEUENCTID

Mae is-bwyllgorau dysgwyr, ieuenctid CIC a gofal plant hefyd yn cyfarfod yn fuan ac y mae croeso i chi ymuno yn eu gwaith nhw hefyd. Mae dysgwyr yn cyfarfod am 5pm ar 24/9/01 yn Swyddfa Colin Williams, Llys Canol Trefforest ac y mae Gofal Plant yn cyfarfod am 7pm ar nos Lun 10/9/01 yn Llantrisant. Mae Cynllun Ieuenctid y Cymoedd yn cyfarfod am 5pm ar nos Lun 10/9/01 yn Aberdar os ydych am gadw cysylltiad a'r cynllun cyffrous hwnnw ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru.

CWRS CYCHWYN BUSNES NEWYDD

Cynhelir cwrs i helpu siaradwyr Cymraeg ddechrau busnesau newydd rhwng 3/10/01 a 7/11/01, mewn cydweithrediad â Menter a Busnes, ar ystad Trefforest. Bydd siaradwyr o Fenter a Busnes, yr Awdurdod Datblygu, banciau, swyddfa dreth ac eraill yn rhoi pobl ar ben ffordd fel pe tai. Os oes gyda chi syniad busnes rydych am ddatblygu neu freuddwyd o ddechrau busnes o ryw fath rhyw bryd ffoniwch Eirian felly ddwy flynedd yn ol ac rydm yn gobeithio y bydd rhyw ddwsin eto eleni. Does dim angen profiad – does dim cost – does dim ymrwymiad i agor busnes – does dim problem – dewch!

Eleri Griffiths yn derbyn clod mewn noson yng Nghlwb y Bont

SIARADWYR GWADD CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Cynhelir cyfres o nosweithiau gan y cwlwm busnes dros y gaeaf gan ddechrau gyda Gill Evans Aelod Seneddol Ewrop yn son am yr ewro a grantiau ewropiadd ac ati ar 18/9/01 am 6pm yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Abercynon. Y mae noson arall yn cael ei threfnu am nos Fawrth 20/11/01 ac wedyn cinio Nadolig i fod ar ddechrau Rhagfyr. Os ydych am ymuno â'r cwlwm busnes, cael hysbyseb fach i'ch cwmni yn llawlyfr aelodaeth y cwlwm ac ar wefan www.cwlwmbusnesycymoedd.co.uk rhowch wybod i ni a dewch i un o'r sesiynau rhwydweithio

CLYBIAU CARCO YN AIL AGOR NEU'N AGOR O'R NEWYDD

I ddweud y gwir mae'n anodd cofio faint o glybiau sydd gennym ond dyma gynnig arni – Abercynon, Aberdar, Bronllwyn, Castellau, Dolau, Evan James, Garth Olwg, Heol y Celyn, Pontsionorton,

FFARWELIO AG ELERI GRIFFITHS SWYDDOG GWIRFODDOLWYR

Hoffwn i ddiolch i Eleri am ei gwaith gwych yn ystod y tair blynedd diwethaf wrth weindyddu Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Rhondda Cynon Taf a'r Cyffiniau. Gwelwyd twf yn y niferoedd o fudiadau yn ymuno a'r Fforwm a thwf yn y defnydd o'r Gymraeg gan gyrff gwirfoddol trwy'r ardal. Mae Eleri yn mynd i fod yn athrawes ac rydym yn aros i glywed a fydd gennym arian i barhau'r gwaith y buodd yn ei wneud. Mae cyfarfod Fforwm Mudiadau Gwirfoddol wedi'i drefnu am 17/10/01 i ystyried marchnata gwaith y mudiadau hyn – mae manylion ar gael o'n swyddfeydd neu o Interlink.

Rhydygrug, Twynyrodyn a Thonyrefail eisioes ar agor. Mae gobaith y bydd Llynyforwyn i agor ar 10/9/01 a Llwyncelyn i fod i agor ar 17/9/01. Y mae gwaith paratoi yn cael ei wneud i agor Tonysbguboriau, Llanharan a Bodringallt hefyd yn fuan iawn ond does dim digon o staff gennym i wneud eto – beth amdanoch chi? Hoffech chi weithio rhwng 3.30pm a 6pm dydd Llun tan ddydd Gwener? Mae codiad cyflog a system pensiynau newydd i fod – meddyliwch amdano. Mae Trystan Griffiths wedi cael help gwych dros dro gan Dianne Williams yn ystod yr Haf ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi hi. Mae John Thomas, o Faesteg, yn dechrau fel ein hail gydlynydd gofal plant ar 3/9/01 ac rydym yn gobeithio y bydd gennym swyddfeydd newydd i'n hadran gofal plant erbyn y pasg flwyddyn nesaf – gawn weld.

GWERTHUSO GWASANAETHAU

Cynhelir cyfres o nosweithiau i rieni bob clwb gael dweud eu dweud ynglyn â'r clybiau carco yn ystod mis Hydref ac fe fydd holiaduron yn cael eu dosbarthu yn ystod mis Medi – os nad ydych yn derbyn gwybodoaeth rhowch wybod i ni. Dylai bob rhiant hefyd fod wedi

derbyn holiadur parthed ein cynlluniau adeg y gwyliau yn ystod yr Haf – gofynnwn i chi eu llenwi a'u dychwelyd cyn gynted ag y bo modd.

CYNLLUNIAU CHWARAE'R GWYLIAU

Agorwyd dau gynllun newydd yn ystod yr haf yn Bronllwyn a Llynyforwyn yn ychwanegol at y rhai yn Llanhari, Rhydfelen, Cymer ac Abercynon. Bu'r tripiau yn llwyddiannus iawn, y Castell neidio yn boblogaidd fel ag yr oedd pwll nofio Rhydfelen. Fe fydd y cynlluniau hyn i gyd ar agor bob gwyliau ysgol ar wahan i'r Nadolig felly ffoniwch ein swyddfa yn Llantrisant am fwy o wybodaeth ar 01443 226386.

YSBRYDOLIAETH!

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gyda un o swyddogion menter iaith arall yn ddiweddar a wnaeth awgrymu – tafod mewn boch – taw fy ngwaith i fel is-gadeirydd Mentrau Iaith Cymru oedd codi calon pawb pan fo pethau yn anodd, yr iaith yn marw o'n cwmpas a'n pobl ifanc yn troi eu cefnau ar yr iaith wrth ddewis musak a diwylliant anglo americanaidd a dilorni ymdrechion ein perfformwyr ni, ein sianeli teledu a radio ni, a'n ffordd o fyw. I raddau roeddwn yn falch i glywed bod problemau mewn ardaloedd eraill o Gymru ac yn falch eu bod yn meddwl fy mod yn gallu gwneud rhywbeth bach i helpu a chodi ysbryd. Yn amlwg rydym yn cael adegau gwell a gwaeth yn Rhondda Cynon Taf a'r cyffiniau hefyd. Wrth weld 25 o bobl yn mynychu bore coffi Cymraeg yn Aberdar cawn feddwl ein bod yn llwyddo ac yn gwneud gwahaniaeth ond wedyn wrth weld llawer iawn llai mewn digwyddiadau eraill basai'n ddigon i dorri calon – ond wedyn roedd miloedd yn Parti Ponty a fu yn llwyddiant mawr iawn i ni.

Rydych chi'n siarad Cymraeg! Rydych chi yn fyw! Rydych chi'n gallu newid pethau llawn cymaint a Tony Blair, George Washington, David Lloyd George, Saunders Lewis neu Ffred Ffransis ac Angharad Thomas heb sôn am Pauline Jarman, Christine Chapman a Jayne Davidson ac ati. Mae eich Cymraeg yn wych! Mae'n fyw! Mae'n newid a datblygu nid gwanhau a gwaethygu. Rydych yn gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg, cymdeithasu yn Gymraeg, caru yn Gymraeg a chreu bywyd newydd Cymraeg – does bosib bod modd i chi ofyn am ffurflen Gymraeg? – does bosib bod modd i chi ofyn am wasanaeth Cymraeg gan BT a'ch banc a'ch cyngor lleol? – does bosib bod modd i chi ysgrifennu ychydig o lythyrau at bapurau newydd i gefnogi galwadau am fwy o bethau yn y Gymraeg? – does bosib bod modd i chi berswadio rhywun i ddysgu Cymraeg? – does bosib bod modd i chi berswadio rhywun i ddanfon eu plant i ysgol Gymraeg? Y pethau bach hyn sy'n creu dyfodol i'r Gymraeg a bywyd gwell i ni nawr – gwnewch rywbeth bach ac wedyn dathlwch yn y Gymraeg!

Rydym yn amal yn poeni gormod am ein sefyllfa ni ond difyr oedd cael gwybodaeth am wledydd eraill dros yr haf – sgwrs a darlithydd o Fosco a gwyliau yn Groeg. Addysg a safonau byw oedd prif fyrdwn y darlithydd o Fosco a diolch yn fawr iawn am lwyddiant economaidd Gorllewin Ewrop wedwn i ar ol clywed am eu trafferthion nhw. Roedd iaith yn fwy o beth yn Groeg a dyfynaf hen ddatganiad gan Pericles Giannoppoulos wrth ei addasu at Gymru yn y gobaith y bydd yn tanio rhywun – "Hyd yn oed os ydy'r Cymry yn darfod bod a does dim ond un Cymro ar ol" meddai "bydd yn dysgu'r concwerwyr i siarad Cymraeg a gwneud Cymry ohonynt. Mae'r pridd, y cerrig, y mynyddoedd yn Gymry ac yn gwneud Cymry". Debyg bod Groeg fel gwlad wedi cael eu rheoli gan lot o wledydd eraill am lawer iawn mwy o amser nac y mae Cymru wedi bod yn rhan o Brydain ond eu bod bellach yn wlad annibynnol gyda'u hiaith eu hunain a'u tynged yn eu dwylo eu hunain. Difyr ynte!

SYLWADAU DAFYDD EL AC ERAILL YN YR EISTEDDFOD

Rhaid i mi nodi dau neu dri o bethau a ddywedwyd mewn sesiwn "Pawb a'i Farn" a drefnwyd gan Fentrau Iaith Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cefin Cambell oedd yn cadeirio Gareth Thomas, Ioan Talfryn, Dafydd Ellis Thomas a Meirion Prys Davies oedd yn cyfrannu. Arian ac adnoddau at y Gymraeg oedd un cwestiwn a nodwyd yn hollol o ddifrif bod angen cyllid o leiaf £60 miliwn y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg os ydym o ddifrif. Wrth ystyried cyllid pitw presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg y mae gennym ffordd fawr i fynd cyn bo modd i'n gwleiddyddion honni eu bod yn trin y Gymraeg yn deg. Yr ail bwynt oedd yr ymateb i'r alwad am ddeddf iaith achos am unwaith nid oedd gwrthwynebiad i'r syniad o ddeddf iaith newydd o gwbl ond awgrym taw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ddylai fod yn deddfu ar ôl ennill yr hawl i wneud hynny. O ie, ron i'n meddwl nefer in Ewrop fel pe tai - rhyw awgrym ac addewid di-ben draw unwaith eto – ond roedd Dafydd El yn awgrymu y gall hyn ddigwydd o fewn pum mlynedd. Efallai bod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth a phum mlynedd yn oes pys mewn gwirionedd ond gwn i pe bai modd derbyn y sefyllfa hynny nawr baswn yn derbyn yn llawen iawn, iawn. Awgrymiadau eraill mwy ymarferol yn ystod y tymor byr oedd defnyddio rheolau cynlluniau i sicrhau bod pob blaen siop a chanolfan yn hollol ddwyieithog a rheolau iechyd a diogelwch i sicrhau bod pob arwydd allanfa dan yn ddwyieithog – a bod modd gwneud hyn heb newid unrhyw ddeddfau o gwbl. Yn amlwg roedd tipyn o drafodaeth ynglyn â'r mewnlifiad i ardaloedd gwledig Cymru a gofynnwyd pam nad oedd gwleidyddion Cymru yn fodlon gweithredu canllawiau cynllunio fel y maen nhw yn ardaloedd y llynnoedd yn Lloegr a'r unig ateb posib oedd eu bod yn ofni gwneud rhag ofn cyhuddiadau o hiliaeth! – Gwirion te!

Diolch am ddarllen a chofiwch eich bod yn Gymry – gwnewch rhywbeth bach dros y Gymraeg bob dydd ac fe fyddwch yn hapusach o lawer – wir i chi!

STEFFAN WEBB
PRIFWEITHREDWR
MENTER IAITH

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Symud Tŷ.
Croeso i Faesycoed i Siân Jones o Gaerdydd.Mae Siân yn enedigol o Drefach, Llanelli ac yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Bronllwyn.

Trist yw ffarwelio â Hefin, Lowri, Trystan ac Osian, Graigwen. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Efail Isaf.

Dosbarthwr Newydd.
Os ydych am dderbyn y "Tafod " yn fisol mae Alun Thomas wedi cytuno i ddosbarthu yn ardal Pontypridd. (h.y. i bawb nad yw yn derbyn eu copïau o Ysgol Evan James ac Ysgol Pont Siôn Norton .) Cysylltwch ag e gyda'ch archeb-01443 485901.

Ysgol Feithrin Sardis
Ar ddiwedd y tymor bu'r plant yn gwisgo eu pyjamas i ganu - fe godwyd dros £200 yn y gweithgaredd noddedig yma ar gyfer prynu offer a theganau newydd i'r cylch.

Pob hwyl i'r plant sydd yn dechrau yn Ysgol Evan James ym mis Medi. Os hoffech fwy o fanylion am y cylch cysylltwch â Mrs Glynwen Blewett 07974 803609 yn ystod oriau agor y cylch 9.15 - 11.45 y bore - pum bore yr wythnos.

Gwobr Jessica McKeown.

SIOP BARA
Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau
wedi eu pobi yn y siop
mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

Plant Cylch Meithrin Sardis yn mwynhau canu yn eu pyjamas yn heulwen mis Gorffennaf

Ysgol Evan James

Yn ystod gwasanaeth ola'r tymor o dan ofal Blwyddyn 6 fe gyflwynwyd Cwpan Goffa Jessica McKeown am ei gyfraniad i fywyd yr ysgol i Jarrad Scapelhorn o Bwllgwaun.

Daeth Martyn Geraint a'r grŵp Trysor i ddiddanu plant yr Adran Iau cyn i'r ysgol gau am y gwyliau.
Cynhaliwyd Disgo ffarwel yn yr ysgol i Flwyddyn 6 o dan ofal y rhieni.

Bu Clwb Nofio'r Ysgol yn brysur yn codi arian mewn gweithgaredd noddedig.Cyflwynwyd rhodd i'r ysgol o £125 yn ystod y sesiwn olaf ym Mhwll Nofio'r Ddraenen Wen a'r gweddill i elusen o'i dewis.

Llongyfarchiadau i Rhian Davies ar ei phriodas a Grant Ratcliffe ym Mis Awst. Dymuniadau am wellhad buan i Rhian Lloyd Jones ar ôl llawdriniaeth ym Mis Gorffennaf.Croeso i Helen Jones, Tonteg fydd yn dod atom dros dro yn lle Rhian.
Ffarwel i Elin Llywelyn a diolch yn fawr iddi am ei gwaith yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bu tîm nofio'r ysgol yn llwyddiannus yn Gala Nofio Ysgolion Ardal Pontypridd ym Mhwll nofio y Ddraenen Wen. Roedd pedair ysgol ar ddeg yn cystadlu a chafwyd ambell wobr gyntaf gan y tîm eleni eto.
Ras Gyfnewid y Merched 1af
Ras Gyfnewid y Bechgyn 2il.
Natalie Jones Bl.6 1af.
Derryn Fox Bl. 5 !af
Greg Baker Bl.5 !af.
Rhys Taylor Bl. 4 2il.

Torri Cysylltiad.
Ar ôl bod yn gysylltiedig â'r ysgol ers y cychwyn cyntaf roedd dau deulu yn ffarwelio ag Evan James ar ddiwedd y tymor. Roedd Teulu'r Griffin o Graigwen yn wreiddiol ond bellach o Fynwent y Crynwyr a'r Carvers o Ffermdy Graigwen wedi danfon eu plant i'r ysgol ers 15 mlynedd. Roedd Catrin Griffin a Beci Carver yn ddwy o'r disgyblion cyntaf.Yn eu dilyn nhw fe ddaeth Iestyn, Aled a Siôn Carver a Tomos a Rhodri Griffin. Diolch am eu cefnogaeth cyson dros y cyfnod.

Taith Caernarfon yr Urdd

Gwelodd pythefnos cyntaf mis Gorffennaf griw gwyllt o'r de yn cyrraedd Caernarfon. Roedd taith Caernarfon yn gyfle gwych i griw blwyddyn 11 ysgolion y de i ymlacio wedi cwblhau eu haroliadau TGAU. Canolfan Felin Fach ger Caeathro oedd ein cartref am y cyfnod ac roedd hyn yn gyfleus iawn ar gyfer ein hymweliadau â Hafan y Mor, Sir Fon, Beddgelert ac Iwerddon. Yng nghanol y stormydd llwyddwyd rywsut i gael barbeciw neu ddau!

Syndod mawr yr wythnos oedd dod o hyd i olion Gelert, ci ffyddlon Llywelyn, ym Meddgelert! Wrth edrych ar hyd y caeau roedd arwyddion ffres ei fod wedi bod allan. Diolch i'r criw i gyd am bythefnod grêt fe welwn ni fwy ohonoch yn ystod y flwyddyn. Edrychwch ar y llun i weithio allan beth yw gwir hanes y daith…..

Taith i Catalonia Gorffennaf 2001

Bu 114 o bobl ifanc o flwyddyn 9 ysgolion Cymraeg Talaith y De ar daith yr Urdd i Catalonia ym mis Gorffennaf 2001. Buon nhw'n aros yn Club Aire Libre sydd yn agos at Tossa de Mar ar y Costa Brava. Buodd gyfle i brofi rhai o gyfleusterau a gweithgareddau'r ganolfan fel pwll nofio, torheulo, disgo, gwelyau haul, traeth bendigedig, nofio tan-ddwr a kayaks. Hefyd roedd nifer teithiau diwrnod i barciau antur Port Aventura a Waterworld ac i brif-ddinas Catalonia sef Barcelona.

Prynhawn ar y Costa Brava

Hoffwn gyflwyno CIC sef Cynllun Ieuenctid y Cymoedd, a fy hunan, Dawn Williams. O hyn ymlaen byddwch chi, ieuenctid yr ardal yn gweld a chlywed lot gen i! Dw i yma i'ch helpu chi i fwynhau gweithgareddau Cymraeg tu allan i oriau'r ysgol. Yn barod mae nifer o glybiau wythnosol gan gynnwys clwb ieuenctid, cyber caff a grwpiau drama. A pheidiwch ag anghofio Hwyliau'r haf. Mae Hwyliau yn galluogi chi, ieuenctid y cymoedd i fwynhau tripiau yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae nifer o weithgareddau fel dringo, beicio mynydd, syrffio ac ymweld â Oakwood a sioe ddiweddara Denise Van Outen, Chicago wedi digwydd dros yr haf yn barod. Edrychwch allan am ein rhaglen o weithgareddau yn ystod Hanner Tymor!

CYNLLUN IEUENCTID Y CYMOEDD

Os ydych chi yn un o ieuenctid y cymoedd sydd â diddordeb yng ngweithgareddau "Hwyliau" neu unrhyw un o'r clybiau cysylltwch â CIC ar 01685 882299 neu e bostiwch ar cic@urdd.org.

(Rydyn ni wastad yn edrych am hyfforddwyr ac arweinwyr i sefydlu clybiau)

Clybiau CIC, Ydy un o'r rhain o ddiddordeb i chi?

Clwb	Gweithgaredd	Noson	Amser	Lleoliad
Diawled Dawnus	Drama 12 - 18	Llun	5:30 – 7:30	Neuadd Dowlais
	Clwb Ieuenctid	Mawrth	7:00 – 9:00	YMCA Pontypridd
Cwmni Gwen	Drama	Mercher	7:00 – 9:00	YMCA Pontypridd
Cyber Caff	Cyfrifiaduron	Iau	7:00 – 9:00	YMCA Pontypridd
Y Rascals	Drama 5 - 11	Sadwrn	10:30 – 12:30	Neuadd Dowlais

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

AGOR NEUADD COEDLAI

Ar ôl misoedd o weithio caled a disgwyl mae'r neuadd wedi ei chwblhau erbyn hyn ar agoriad swyddogol wedi cymryd lle.

Crybwyllais yn rhifyn Mis Mehefin Tafod Elái fel roedd y gwaith yn datblygu a'r awgrym bryd hynny byddai'r agoriad swyddogol tua chanol Mis Mehefin ond aeth yn ganol Gorffennaf cyn yr agoriad gan yr aelod seneddol Dr. Kim Howells. Mae Dr. Kim wedi bod o gymorth mawr iddynt yn y fenter. Mae llawer iawn o ddiolch i Mrs Marian Drew am gadeirio'r pwyllgor ag i'r pwyllgor am eu cefnogaeth a chael profi gwireddu'r hyn a fu yn freuddwyd am flynyddoedd.

Ar brynhawn Sadwrn Gorff. 14eg cafwyd barbeciw ac ar y Gwener canlynol yr 20ed cafwyd yr agoriad swyddogol. Llongyfarchiadau mawr i'r gymuned.

MARWOLAETHAU.

Ar y 6 ed o Fis Gorffennaf bu farw Mr Denis Roderick Y.H. Heol Penrhywfer Tonyrefail ar ôl cystudd byr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Roedd Denis wedi bod yn ffrind mawr i mi ac wedi cydweithio ar bwyllgor Cyngor Henoed Tonyrefail. Roedd wedi gwasanaethu ar lawer o bwyllgorau eraill ac yn lywodraethwr Ysgol Gyfun Tonyrefail. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd wedi cael yr awydd i ddysgu Cymraeg ac wedi'i meistroli yn gampus.

Ar 12fed o Orffennaf daeth tyrfa luosog iawn ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo yn Amlosgfa Llangrallo pryd y gwasanaethwyd gan Mr Billy Philips o'r Gilfach Goch a thalodd deyrnged uchel a oedd yn ddyledus iddo. Nid oedd Denis yn briod ac nid oedd ganddo berthnasau yn nes na chefnder a nithoedd. Mae yn golled fawr i'r ardal o golli un mor addfwyn â gonest.

Cydymdeimlad dwys ag un o'n haelodau yng Nghapel Y Ton sef Mrs Ivy Priddle ar golli chwaer yng nghyfraith a oedd yn byw ym Maesteg. Bu'r angladd ar ddydd Mercher y 11eg o Fis Gorffennaf yn Eglwys Llangynwyd ag wedyn yn amlosgfa Llangrallo.

Ar y 7fed o Fis Gorffennaf bu farw Mrs Fanw Williams gynt o Dylcha Wen ac erbyn hyn roedd yn byw yng nghartref Gelliseren ar ôl cyfnod yn Nhydawel. Bu'r gwasanaeth angladdol yn amlosgfa Llangrallo gwasanaethwyd gan y Parchedig Ernie Banwell gweinidog Bethlehem Cwmlai. Wythnos i'r diwrnod daeth tyrfa luosog iawn i dalu'r gymwynas olaf i nai i Fanw eto yn amlosgfa Llangrallo,sef Mr Elwyn Williams o Meyler St. Thomastown. Roedd Elwyn yn adnabyddus iawn yn ardal Cwmlai ac wedi treulio'i oes yn y cylch.

SAL WEDI SYMUD.

Mae'n flin iawn gennym fod yr hynaf o bobol Tylcha Wen sef Mrs Sal Evans a ddathlodd ei phenblwydd yn 101 mis Chwefror diwethaf wedi symud o'i chartref i gartref henoed ym Mhentre'r Eglwys. Mae wedi gwneud y penderfyniad o'i gwirfodd. Pan roeddem yn ymweld â hi ddiwethaf roedd yn benderfynol o aros yn ei chartref yma yn Nhylcha Wen. Yn anffodus doedd dim lle iddi yng Nghartref Gelliseren ar y pryd, felly os fydd yna le maes o law fydd yn dychwelyd yw cynefin.

PRIFATHRO YN YMDDEOL.

Ar ôl bron i ugain mlynedd fel Prifathro Ysgol Gynradd Cwmlai mae Mr David Jones wedi ymddeol. Soniodd wrthyf rai misoedd yn ôl fod awydd arno i roi'r gorau ar ôl tymor yr haf. Fe wêl y plant ei eisiau yn fawr iawn, roedd yn ymfalchïo yng Nghymreictod yr ysgol pan fum yno ar Ddydd Gŵyl Dewi diwethaf, a chael profi rhan o'r gweithgareddau. Dymunwn bob bendith iddo ar ei ymddeoliad. Hefyd mae Mrs Maudie Crier wedi ymddeol fel Cogyddwraig yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddi hithau hefyd.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Mrs DJ Davies, Tylcha Wen sydd yn cael anhwylder gyda'i llygaid.

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

CYSTADLEUAETH COGINIO
Llongyfarchiadau i Mrs Alison Philip, Llantrisant ar ennill cystadleuaeth `Cogydd y Flwyddyn' a drefnwyd gan y gwasanaeth bwyd i ysgolion mewn cydweithrediad â Chyngor Rhondda Cynon Taf. Hyfforddwyd Mrs Philip fel cogydd wedi iddi adael yr ysgol ac mae'n gweithio ar hyn o bryd yng nghegin Ysgol Gynradd Tonysguboriau. Mae ganddi hi a'i gwr ddau o blant, Rhiannon a Morgan, sy'n mynychu YGG Llantrisant ac mae'n siwr eu bod nhw'n falch iawn o'u mam ar ennill y gystadleuaeth. Mi fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf nawr yn erbyn enillwyr siroedd eraill Cymru.

ARHOLIADAU OFFERYNNOL
Llongyfarchiadau i Elin Haf Davies, Clos Portreave ar basio arholiad telyn Gradd 1 gydag anrhydedd ac i Eleri Tudor, Meisgin ar basio arholiad ffidil gradd II, hefyd gydag anrhydedd.

MEDALAU PRES
Llongyfarchiadau i Catrin a Rhian Greaves ar ennill eu medalau cyntaf, rhai pres. am wneud dawnsio 'ballroom'. Mae'r ddwy wedi bod yn mynychu gwersi yn lleol ers rhai misoedd bellach ac yn edrych ymlaen yn awr at ddysgu'r gwaith ar gyfer y medalau arian.

CYNGERDD DIWEDD TYMOR
Bu llawer o ieuenctid Llantrisant a'r ardal yn cymryd rhan mewn cyngerdd offerynnol yn Ysgol Llanhari ar nos Fawrth, 10 Gorffennaf. Cafwyd eitemau unigol, grŵp a cherddorfaol ac roedd yn braf gweld y disgyblion yn mwynhau perfformio i'w teuluoedd a'u ffrindiau. Ymhlith y perfformwyr roedd Jayne Collier, Ceri South, Elaine Webb ac Emmy Abraham ar y delyn, Catrin Evans ar y ffliwt ac Alexander Vlahos ar y gitâr bas.

LLONGYFARCHIADAU i holl ieuenctid yr ardal sydd wedi derbyn canlyniadau eu harholiadau TGAU, Lefel A a gradd erbyn hyn. Dymuniadau gorau i chi, naill ai yn y Chweched Dosbarth neu mewn Coleg neu Brifysgol neu yn dechrau ar yrfa newydd.

YSGOL GYMRAEG LLANTRISANT

Bu'n amser prysur ddiwedd y tymor diwethaf rhwng popeth. Cafwyd gwasanaeth Blynyddoedd 4 a 5 ar y 6ed o Orffennaf lle bu'r plant yn sôn am reolau'n gyffredinol a rheolau'r ysgol, a gwasanaeth Blwyddyn 6 ar yr 20fed o Orffennaf gyda'r plant yn edrych yn ôl ar eu hamser yn yr ysgol ac yn derbyn rhoddion gan yr ysgol yn barod ar gyfer dechrau cyfnod newydd yn eu bywydau yn yr ysgol uwchradd. Dymuniadau gorau iddynt i gyd ar gyfer y dyfodol.

Aeth Blwyddyn 5 ar drip addysgiadol i Borthcawl i gael cymharu tref glan mor â Llantrisant. Trueni nad oedd y tywydd ychydig yn well, ond llwyddon nhw i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith oedd angen ei wneud a chwblhau eu holiaduron hefyd.

Roedd hefyd yn adeg tripiau diwedd blwyddyn; aeth Blynyddoedd 5 a 6 i Oakwood a chael amser gwych; aeth Blynyddoedd 3 a 4 i Ganolfan Hamdden Abertawe i nofio oedd yn llwyddiannus dros ben; aeth Blynyddoedd 1 a 2 i Sŵ Bryste a mwynhau gweld yr anifeiliaid i gyd; ac aeth yr Uned Dan 5 i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Oherwydd y tywydd gwlyb, gohiriwyd y Mabolgampau am wythnos ond wedyn, gan bod y tir yng Nghoed yr Esgob yn dal yn wlyb, rhaid oedd canslo'r digwyddiad, er mawr siom i'r plant a'r rhieni.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Llywodraethwyr YGG Llantrisant i'r rhieni ar nos Fercher, 18 Gorffennaf. Siomedig oedd y nifer o rieni a fynychodd y cyfarfod.

Ar ddiwrnod olaf y tymor i'r plant, trefnodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ras Falwnau ar iard waelod yr ysgol. Llwyddwyd i werthu nifer fawr o docynnau ac roedd yr awyr yn llawn lliw wrth i'r balwnau godi i'r awyr a hwylio i ffwrdd i'r pellter. Gwerthwyd y potiau blodau y bu Mrs Hurst a'i chefnogwyr yn eu paratoi ar gyfer y gystadleuaeth Rhondda Cynon Taf yn ei Blodau, felly bu'r diwrnod yn un llwyddiannus iawn. Diolch i bawb fu wrthi'n helpu.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Pat Edmunds

"Tiger" Efail Isaf
Mae gan Efail Isaf ei Tiger Woods ei hunan. Ar y 23 o Fehefin fe enillodd Dylan Hughes, Nant y Felin, y brif gystadleuaeth i oedolion sef "Captain's Day" yng Nghlwb Golff y Creigiau gyda sgôr o 43 pwynt. Mae hon yn gamp o fri am chwaraewr mor ifanc sy'n chwarae gyda handicap o 13. Eisoes mae yn dangos sgiliau a medrau sydd yn gysylltiedig â chwaraewyr llawer mwy profiadol na'i hunan - seren y dyfodol yn bendant.

Ym mis Awst bu e a'i gyfaill Geraint Hardy i fyny yn "Royal St Lythams" yn cadw llygaid barcud ar y "Tiger" arall.

Ymddeoliad
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am y dyfodol i Eifiona Hewitt, Penywaun, ar ei hymddeoliad fel dirprwy brifathrawes ysgol gynradd Abercynon. Cafodd ddiwrnod bythgofiadwy y diwrnod ola' - y plant, y rhieni a'i chyd athrawon yn eiddgar iawn i'w llongyfarch ag i ddiolch iddi am wasanaeth cydwybodol iawn i'r ysgol ag i'r gymuned dros gyfnod hir o amser.

Mae hi eisoes wedi cofrestru gyda Chlwb Hamdden Cymraeg y pentref ag yn edrych ymlaen yn frwdfrydig at amserlen o weithgareddau hamddenol iawn.

Roedd y cyntaf o'r rhain ar y 31 o Orffennaf pryd y bu hi a Cliff, y gwr, yn dathlu eu priodas perl.

Dyrchafiad
Llongyfarchiadau mawr i Carys Hewitt, Penywaun, ar ei dyrchafiad i swyddog Gwybodaeth Dwyieithog gyda Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'r swydd wedi ei leoli yn adeilad y QED yn Nhrefforest a cychwynodd ar y 5ed o Awst. Pob lwc i ti.

Croeso i'r Pentre
Croeso cynnes iawn i Alun a Heulwen Rees a'u teulu Ffion a Rhodri. Maent newydd ymgartrefu yn Heol Iscoed wedi symud o Clôs Myddlin, Beddau.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Cydymdeimlo
Hoffwn gydymdeimlo gyda Heulwen a Dewi Hughes a'r plant, wedi i Heulwen golli ei mam yn ddiweddar. Bu farw ar ôl cyfnod byr o salwch yn Ysbyty Glangwili.

Canlyniadau
Os wyddoch am ieuenctid y pentre' sy' wedi neu ar lwyddo yn eu haroliadau, beth am rhoi clod iddynt ar dudalennau Tafod Elái. Gyrrwch son amdanynt i mi, Bethan ar 029 20 892954.

Clwb y Dwrlyn
Bu criw draw yn y Cliff, Gwbert ar ddechrau mis Gorffennaf a chael

Gobeithio byddant yn hapus yn ein plith.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Cheryl a Craig, 10 Penywaun, ar enedigaeth mab bach, Joshua Lee ym mis Gorffennaf.

Mae tadcu a Mamgu Wayne a Carol Williams wedi dwli'n lân ar eu hŵyr bach newydd a Wncwl Ben wrth ei fodd.

Mae'r teulu bach newydd ymgartrefu ym Mrynsadler ger Pontyclun.

Hyfforddi Dros y Dŵr
Dwi'n siwr fod problemau clwb rygbi Balimor ger Sligo wedi eu datrus yn llwyr. Yn ddiweddar penodwyd Garry Samuel fel ei hyffordwr llawn amser gyda'r cyfrifoldeb o ddatblygu'r clwb a'i chwaraewyr.

Mae'r swydd yn her wirioneddol iddo ond mae ganddo'r brwdfrydedd, y gallu, y gwybodaeth a'r profiad i ymateb yn gadarnhaol iawn. Does dim eisiau lwc arno i lwyddo - wedi cyfnodau llwyddiannus yn hyfforddi clybiau fel Pontypridd a Chaerdydd mae pawb yn cydnabod ei rinweddau.

Dymuniadau gorau iti oddi wrth pawb yn Efail Isaf.

cyfle i gerdded arfordir Sir Benfro o fae Ceibwr i Drefdraeth ac o gwmpas Pen Dinas. Fe wenodd yr haul a rhoi hwb i'r cerddwyr ar ddiwedd blwyddyn o weithgareddau o dan gadeiryddiaeth John Williams.

Merched y Wawr
Bydd y tymor yn ail-ddechrau ar Nos Fercher, 19ed Medi, yn Neuadd y Pentref, Pentyrch am 8.00 y.h. Pan fydd Rhuanydd Richards, un o ohebwyr gwleidyddol y B.B.C. yn dod atom i roi sgwrs. Dewch yn llu i gwmnïa gyda chriw o ferched hwyliog. Dewch â ffrind gyda chi – mae'n gyfle i gymdeithasu a chael paned. Dyma raglen y tymor:

Nos Fercher, Medi 19 – Neuadd y Pentref, Pentyrch 8.00 y.h. Noson Agoriadol
Nos Fercher, Hydref 10 – Neuadd y Pentref, Pentyrch 8.00 y.h. Sgwrs gan Ann Huws – Addurno'r cartref.Mis Tachwedd – Gwyl Ddrama Tafod Elái. Byddwn ni'n mynd am yr Oscars!
Nos Iau, Rhagfyr 13eg – Ysgol y Creigiau. 8.00 y.h. Côr Merched y Garth – Dathlu'r Nadolig.
Manylion pellach – 029 20891426

HOFFECH CHI DDYSGU CHWARAE'R PIANO?

gwersi piano a theori
ar gyfer pob safon

gwasanaeth cyfeilio
proffesiynol

hyfforddiant trwy'r Gymraeg gan athrawes brofiadol (tystebau ar gael)

BRANWEN B EVANS
01443 686120
07974 119541

Tafod Elái
Papur Bro sy'n rhoi holl newyddion am fywyd Cymraeg yr ardal yn fisol.
Golygydd: Penri Williams 029 20890040

Gŵyl Ddrama Tafod Elái
Gŵyl flynyddol sy'n cael ei chynnal ym mis Tachwedd
Trefnydd: Colin Williams 029 20890979

Merched y Wawr, Cangen y Garth
Cymdeithas ar gyfer merched o bob oed.
Llywydd: Nia Williams 029 20890979

Cylch Cadwgan
Cyfres o nosweithiau difyr wedi eu trefnu gan gymdeithasau'r ardal.
Cysylltydd: Rowland Wynne 029 20891426

Clwb y Bont, Pontypridd
Y Clwb Cymraeg lleol sy ar agor 7.00 - 11.00 nos Lun - nos Sadwrn. Mae'r Clwb tu ôl i Boots yn Stryd Taf, Pontypridd. 01443 491424

Nyddu'r Cynganeddion
Dosbarth ar nos Fawrth ym Methlehem Gwaelod y Garth
Tiwtor: Rhys Dafis 029 20891360

Côr Merched y Garth
Côr Cerdd Dant yn ymarfer yng Nghapel Tabernacl Efail Isaf ar nos Iau
Ysgrifennydd: Eleri Roberts. 01443 208211.

Côr Godre'r Garth
Côr cymysg yn ymarfer am 7.30pm ar nos Sul yn neuadd Efail Isaf
Arweinydd: Wil Morus Jones 01443 404001

Parti'r Efail
Parti Cerdd Dant Bechgyn yn ymarfer yng Nghapel Tabernacl Efail Isaf ar nos Fecher
Cysylltydd: Ifan Roberts 029 20890493

Cantorion Creigiau
Côr cymysg yn ymarfer ar nos Sul yn Ysgol y Creigiau. Cysylltydd: Enid Davies 029 20890618

Stiwdio Bocs 50
Stiwdio sain 12 trac digidol o dan ofal Martyn Geraint. Datblygu talent yn y Gymraeg.
mg@bocs50.co.uk. 07974 953269.

Dawnswyr Nantgarw
Dawnswyr gwerin byd enwog yn ymarfer yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar nos Iau.
Trefnydd: Cliff Jones 029 20 565118

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant
Mae Cymry Cymraeg cylch Llantrisant, Tonyrefail a Thonteg yn cyfarfod unwaith y mis.
Cadeirydd: John Thomas 01443 218077

Clwb y Dwrlyn
Cymdeithas Gymraeg Cylch Pentyrch, Creigiau a Gwaelod y Garth
Cadeirydd: Rowland Wynne 029 20891426

CYD Pontypridd
Cymdeithas i ddysgwyr a Chymry Cymraeg sy'n cyfarfod yng Nghlwb y Bont unwaith y mis.
Trefnydd: Adrian Price 01443 218908

Sgio'r Dwrlyn
Criw heini sy'n sgio'r llethrau yn flynyddol
Trefnydd: Cerith Davies 029 20890843

CAPELI

Capel Salem Tonteg
Ysgrifennydd: Howard Morse 01443 202737

Capel Sardis Pontypridd
Gweinidog: Parch Hywel Lewis 029 20890619

Capel y Ton, Tonyrefail
Ysgrifennydd: D.J. Davies 01443 671327

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth
Gweinidog: Parch Gareth Rowlands 029 20852705

Capel Tabernacl, Efail Isaf
Gweinidog: Parch Eirian Rees 01443 202873

DOSBARTHIADAU CYMRAEG I OEDOLION

Prifysgol Morgannwg Dosbarthiadau Cymraeg
Trefnydd: Adrian Price 01443 480480

Swyddog Datblygu Cymraeg i Oedolion
Colin Williams 01443 485838

Trefnydd Dosbarthiadau Cymraeg
Gwen Awbery 029 20874000

CAIB
Clwb Ieuenctid Bethlehem, Gwaelod y Garth
Trefnydd: Rhys Dafis 029 20 891360

Teulu Twm
Clwb Capel Tabernacl, Efail Isaf i blant 11 - 18
Trefnydd: Heulyn Rees. 01443 209487

Urdd Gobaith Cymru
Y mudiad cenedlaethol i bobl ifanc Cymru.
Trefnydd: Dyfrig Morgan 029 20803350

Yn Nhaf Elái mae'r Urdd yn trefnu'r canlynol:

Pwyllgor Sir yr Urdd Bro Morgannwg

Pwyllgor Sir yr Urdd Blaenau Morgannwg

Pwyllgor Cylch Llantrisant yr Urdd

Adran yr Urdd Creigiau
Cyfarfodydd bob nos Fercher yn Ysgol Gynradd y Creigiau.
Is-adran i blant cynradd dan 11 0ed 6.00 - 7.00
Uwch-adran i blant rhwng 11 a 14, 7.00 - 8.30

Adran Cilfynydd
Cyfarfodydd bob nos Iau 6.00 - 7.30 yn Ysgol Gymraeg Pont Siôn Norton i blant oed cynradd.
Cysylltydd: Alun Williams, 01443 486838

Adran y Graigwen, Pontypridd
Cwrdd yn bythefnosol brynhawn Llun 3.30 - 4.30 yn Ysgol Evan James, Pontypridd ar gyfer plant 7 i 11 oed.
Cysylltydd: Jayne Rees 01443 405837

Adran yr Urdd, Ysgol Rhydfelen

Cwmni Gwen – cwmni drama ieuenctid Bl 7+ yn cwrdd yn y YMCA Pontypridd ar Nos Fercher.
Cysylltydd: 01685 882299

Menter Caerdydd – mudiad cymunedol sy'n ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Brifddinas
Cyswllt: Gareth Kiff: 029 20450529

Unrhyw newidiadau / ychwanegiadau i gwe@cwlwm.com

Menter Iaith www.menteriaith.net
Menter i hyrwyddo y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf gan drefnu Gwyl a Hamdden, Ieuenctid, Gwirfoddoli, gwasanaethau busnes, gofal plant, offer cyfieithu yn rhad. Mae'r Fenter yn gweithio ym maes hyffordiant a dysgu Cymraeg i Oedolion gan gynnig grantiau bach i ddysgwyr.

Swyddfa: Tŷ Model, Llantrisant. 01443 226386
Swyddfeydd Interlink, Pontypridd 01443 485337

Gweithgareddau Y Fenter yn Nhaf Elái

Cwmni Drama'r Diawled Dawnus Uwchradd yn cyfarfod bob nos Lun yn Neuadd Dowlais, a

Cwmni Drama'r Rascals yn cyfarfod bob bore Sadwrn yn Neuadd Dowlais
Manylion Rhian Grundy 01443 207237

Cyber Caff Cymraeg yn cyfarfod bob nos Iau yn ystod tymor yr ysgolion yn yr YMCA Pontypridd - Manylion Dawn Williams 01685 882299

Gwirfoddolwyr y Milflwydd (16-24oed) - Rhodri Thomas 01 685 877183.

Parti Ponty – Gŵyl flynyddol yr ardal.

Mae **Boreau Coffi** ar gael :
Ar fore Llun yn TJs Trefforest, Pontypridd.
Amser cinio dydd Iau yn y Miwni, Pontypridd.
Bore dydd Gwener yn y Bwtsiers Llantrisant.
Manylion 01443 226386

Clybiau Carco yn darparu gofal ar ôl ysgol rhwng 3.30-6pm yn ysgolion Evan James, Pontsionnorton, Garth Olwg, Y Dolau, Heol y Celyn, Castellau, Tonyrefail, Tonysguboriau a Llanharan.

Cynlluniau Chwarae adeg y gwyliau yn Rhydfelen a Llanhari. Manylion Trystan Griffiths 01443 226386

Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg Rhondda Cynon Taf a chefnogi gwirfoddolwyr – 01443 485337

Cwlwm Busnes y Cymoedd – Eirian Davies 01685 877183.

Cylchoedd Meithrin a Cylchoedd Ti a Fi

Swyddogion Datblygu

Sharron Warren 01656 652066 Glynis Huish 029 20830692

Cylch Meithrin y Beddau
Neuadd y Sgowtiaid Llun i Gwener 9.15 - 12.00
Ti a Fi. Dydd Iau 1.30 - 3.00

Cylch Meithrin Cilfynydd
Canolfan Gymunedol
Llun, Mercher a Iau 9.30 - 12.25
Ti a Fi Gwener 9.30 - 11.30

Cylch Meithrin y Ddraenen Wen, Hawthorn
Yn y Ganolfan Gymunedol
Llun - Gwner 9.30 - 12.15.
Ti a Fi Llun 1.00 - 2.00

Cylch Meithrin Ffynnon Taf
Llun - Gwener 9.30 - 12.00
Ti a Fi Llun 1.15 - 2.45

Cylch Meithrin Glyncoch
Canolfan Gymunedol
Llun Mercher a Gwener 10.00 - 12.00

Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref
Neuadd Dowlais Llun a Mercher 9.30 - 2.00 Mawrth 9.30 - 1.00 Iau 9.30 - 12.0
Ti a Fi Gwener 10.00 - 12.00

Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys
Neuadd y Plwyf
Llun, Mawrth, Iau a Gwener 9.00 - 11.45
Mercher 9.00 - 11.15
Ti a Fi Gwener 11.45 - 1.00

Cylch Meithrin y Graigwen, Pontypridd
Tŷ'r Eglwys
Llun a Mercher 9.30 - 12.30
Mawrth a Iau 12.00 - 3.00
Ti a Fi Iau 1.30 - 3.00

Cylch Meithrin Tonteg
Festri Capel Salem
Llun - Gwener 9.15 - 11.45

Cylch Meithrin Sardis
Capel Sardis
Llun - Gwener 9.15 i 11.45
Ti a Fi Mercher 12.30 - 2.00

Cylch Meithrin Bryncae, Llanharan
Canolfan Gymunedol
Llun, Mawrth, Iau a Gwener 9.30 - 12.30
Ti a Fi Mawrth a Iau 9.30 - 11.30

Cylch Meithrin Brynna
Canolfan Gymunedol
Llun - Iau 9.30 12.30
Ti a Fi, Mawrth 9.30 - 12.30

Cylch Meithrin Gilfach Goch
Canolfan Gymunedol
Llun - Mercher 9.30 - 11.4
Llun 10.30 - 12.00

Cylch Ti a Fi Penygawsi, Llantrisant
Canolfan Gymunedol
Ti a Fi Llun 1.00 - 3.00

Cylch Meithrin Pontyclun
Capel Hope
Llun - Gwener 9.15 - 12.00
Ti a Fi Mawrth 10.00 - 12.00

Cylch Ti a Fi Llanhari
Canolfan Gymunedol
Ti a Fi Llun 1.00 - 3.00

Cylch Meithrin Creigiau
Canolfan y Sgowtiaid

Cylch Meithrin Gwaelod y Garth
Festri Bethlehem

Ti a Fi Pentyrch
Neuadd y Pentref

Swyddog Datblygu Caerdydd:
Jên Dafis: 029 20436803

Ysgol Gynradd Pont Siôn Norton, Cilfynydd, Pontypridd.
01443 486838

Ysgol Gynradd Evan James, Mill Street, Pontypridd.
01443 486813

Ysgol Gynradd Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.
01443 202585

Ysgol Gynradd Castellau, Beddau
01443 208700

Ysgol Gynradd Llantrisant.
01443 237837

Ysgol Gynradd Tonyrefail
01443 670319

Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
029 20810489

Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Rhydfelin.
01443 486834

Ysgol Gynradd Creigiau
029 20891045

Ysgol Gynradd y Dolau, Llanharan.
01443 237830

Ysgol Gyfun Llanhari
01443 237824

Ysgol Gyfun Rhydfelen
01443 486816

Gwybodaeth am y Llywodraethwyr a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon ar gael o'r ysgolion.

Rhieni Dros Addysg Gymraeg
www.rhag.net

MERTHYR A THAF

Dyma'r gyfrol ddiweddaraf yng Nghyfres y Cymoedd wedi ei olygu gan Hywel Teifi Edwards yn bwrw golwg dros ddiwylliant Cymraeg cymoedd Merthyr a Thaf a'r modd yr ymdrechwyd i'w gynnal.

Mae dwy bennod yn sôn am Bontypridd. Ceir hanes Clic y Bont a'r beirdd eraill gan Huw Walters ac mae Meic Stephens yn trafod y Dref heb Hanes ond Ufflon o Orffennol.

Merthyr a Thaf. Gwasg Gomer. £14.95

CORNEL Y PLANT

Beth yw'r neges?

(Cymrwch lythyren gynta pob llun)

Mae'r gwyliau wedi gorffen a'r Hydref ar y ffordd.

CORNEL JOCS

Taid yn mynd â'r ci ar ei wyliau a dynes y gwesty'n dweud "Peidiwch a dod a'r ci i mewn i'r gwesty 'ma, mae o'n llawn chwain."
Taid: "Tyrd Mot, well i ni beidio a mynd i'r gwesty yma, mae o'n llawn chwain."

Beth sydd a 40 coes ac yn canu?
Ateb: Côr yr ysgol.

Beth sy'n cario pobl o dan y môr?
Ateb: Octobys

Lliwiwch y llun



www.s4c.co.uk

Bywyd ar ôl Gareth.
Beth sy'n wynebu'r genod rŵan?

AMDANI
9.00PM
NOS SUL
YN CYCHWYN MEDI 16
TRANSL888/889

Ailddarllediad bob nos Fawrth
gydag is-deitlau Saesneg ar y sgrîn

CYFRES NEWYDD S4C